

# **Cynllun Busnes 2011/12**

**Cynnwys**

1.	Cyflwyniad	1
2.	Uchafbwyntiau 2010/11	1
3.	Defnydd gorau o adnoddau	4
4.	Rhaglenni gwaith arfaethedig	5
5.	Yr Alban, Cymru a rhaglenni gwaith y Pwyllgor Anabledd	10
6.	Cyfathrebu a rheolaeth gorfforaethol	10
7.	Cyflawni'r cynllun	10
8.	Egwyddorion rheoleiddio	11
9.	Cyllideb a dyraniad adnoddau 2011/12	11
10.	Rheoli risg	12
11.	Llywodraethu a rheoli perfformiad	13
12.	Gwerth am arian	13
13.	Rheoli rhanddeiliaid	14
	Atodiad 1: Rhaglen waith yn 2011/12	15
	Atodiad 2: Tybiaethau sy'n sylfaen i'r gyllideb	91

## 1. Cyflwyniad

Mae 2011/12 yn flwyddyn o newid i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn). Byddwn yn creu cynllun strategol newydd ar gyfer 2012-15, yn datblygu gweledigaeth newydd ar gyfer 2015 ac yn ailffurfio'n hunain i ddod yn sefydliad tipyn mwy main ac effeithiol.

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Adnoddau wedi cymeradwyo cynllun busnes 2011/12 sy'n talu sylw i'r adnoddau y bydd angen i ni eu hymroi i'r broses ddiwygio a chynllunio strategol. Mae hefyd yn ceisio cydbwysu gwaith rheoleiddiol ffurfiol y Comisiwn gyda lefel uwch o waith hyrwyddo ac eirioli, yn arbennig ar hawliau dynol, gan adlewyrchu ein rôl a chyfrifoldebau fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol statws 'A'.

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod y cyrff yr ydym yn rheoleiddio yn gweithio i lythyren ac ysbryd y gyfraith er mwyn hybu ymarfer a safonau sefydliadol a gwella deilliannau i unigolion mewn cydraddoldeb a hawliau dynol.

Wrth gyflawni'r cynllun hwn, byddwn yn dilyn ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y canlyniad i'n gwaith, yn defnyddio ystod o arfau rheoleiddio yn ogystal â'n hoffer cydymffurfio cyfreithiol. Golyga'r ymagwedd hon y byddwn yn gweithio ar y cyd gyda chyrff eraill, rheolyddion, arweinyddion diwydiant a sefydliadau proffesiynol. Mae hefyd yn amlinellu sut fyddwn yn defnyddio'r wybodaeth a dadansoddiadau i adeiladu'n sylfaen o dystiolaeth, y byddwn yn rhannu gydag eraill i helpu gosod safonau ac annog arfer da.

Yn sail i'r cynllun lefel uchel hwn mae cynlluniau gwaith manwl, sy'n sefydlu elfennau i'w cyflawni, deilliannau a mesurau ar gyfer pob un o'n gweithgareddau. Bydd hyn yn sail i amcanion personol pob grŵp a chyfarwyddwr cenedlaethol, gan ddod â chyswllt clir rhwng y cynllun busnes a rheolaeth perfformiad unigol. Yna bydd y rhain yn ffrydio i lawr i gwmpasu pob aelod unigol o staff yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad cyfnerthedig i'w gyflwyno o 1 Ebrill 2011.

Helen Hughes, Prif Weithredwr Interim,  
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

## 2. Uchafbwyntiau 2010/11

Cafwyd rhai gwelliannau sylweddol gan y Comisiwn yn y flwyddyn ddiwethaf a rhai datblygiadau pwysig ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol.

- Fe gychwynnodd y llywodraeth Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn Hydref a dechreuodd y Comisiwn helpu cyflogwyr (yn arbennig busnesau bach), cyrff cyhoeddus ac unigolion i ddeall eu hawliau a chyfrifoldebau newydd. Er enghraifft:
  - Mae 250,000 o gyhoeddiadau wedi eu dosbarthu i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh) (*Rheoli'r Dirywiad, Canllaw Byr i Weithio'n Hyblyg, 50 o Gwestiynau Anodd – am gydraddoldeb ac arferion cyflogaeth da*) ar y cyd â Siambrau Masnach Prydain (BCC), y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB) a'r Sefydliad Cyfarwyddwyr (IoD); 60,000 wedi eu lawrlwytho yn uniongyrchol.
  - Rhagwelir 1 miliwn o ymweliadau i dudalennau'r we'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb yn 2011/12.
- Cyhoeddodd y Comisiwn ei Adolygiad Tair Blynedd *Pa mor Deg yw Prydain?* Roedd hyn yn dangos y cynnydd a wnaed i adeiladu cymdeithas decach, ond roedd hefyd yn amlygu rhai o'r heriau sylweddol sy'n parhau. Ymhlith y rhain mae:
  - mae babanod Caribïaidd Du a Phacistanaid ddwywaith yn fwy tebygol o farw yn eu blwyddyn gyntaf na babanod Gwyn Prydeinig neu Fangladeshaid
  - deilliannau addysgol gwael i blant Sipsi a Theithwyr a bechgyn Gwyn Prydeinig ar brydau ysgol am ddim o gymharu â grwpiau economaidd-gymdeithasol neu ethnig eraill
  - bylchau cyflogaeth a thâl a ymddengys i fod yn ddiysgog yn wynebu hyd yn oed y menywod mwyaf llwyddiannus, rhai lleiafrifoedd crefyddol ac ethnig, a phobl anabl, yn arbennig y rhai gyda materion iechyd meddwl
  - menywod, pobl anabl a lesbiaid, hoywon a phobl ddeurywiol a thrawsrywiol yn wynebu lefelau pryderus o drais a bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth yn y cartref, ysgol ac yn y gweithle, a
  - Effaith gynyddol hunaniaeth a chyfrifoldebau gofal ar allu gwahanol grwpiau i gymryd rhan yn y gweithle a bywyd cyhoeddus.

Bydd *Pa Mor Deg yw Prydain?* yn cael dylanwad mawr ar ddatblygiad cynllun strategol y Comisiwn ar gyfer 2012-15 ac mae rhai o'r heriau mae'n godi wedi hysbysu elfennau o gynllun busnes trosiannol eleni.

Fel dangosydd o'r lefel o ddiddordeb ac effaith yr arolwg, hyd yn hyn mae *Pa Mor Deg yw Prydain?* wedi ei lawrlwytho 73,000 o weithiau, a 10,000 copi o'r fideo cysylltiedig wedi ei lawrlwytho.

- Rydym wedi cryfhau ein rôl o reoleiddio llywodraeth ganolog trwy weithio ar y cyd gyda Thrysorlys EM ar arolwg systematig o ganlyniadau cydraddoldeb arolwg gwariant y llywodraeth.
- Gweithredwyd 157 o gamau cyn gorfodi, yn bennaf wedi eu datrys heb orfod cymryd camau cydymffurfio neu weithredu cyfreithiol. Cafwyd 66 o weithredoedd cyfreithiol o bwys, gyda chyfradd llwyddiant o dros 75 y cant hyd yn hyn. Mae achosion yn cynnwys:
  - Preddy a Hall, ble defnyddiwyd y Ddeddf Gydraddoldeb newydd i sefydlu egwyddor o driniaeth gyfartal yn y ddarpariaeth o nwyddau a gwasanaethau, ble roedd partneriaid sifil wedi erlyn perchnogion gwesty am wrthod gadael iddynt rannu ystafell ddwbl oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol.
  - Gweithredu cyfreithiol yn erbyn plaid y British National Party, oedd yn ei orfodi i newid ei gyfansoddiad i gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb.
  - Ymyrraeth ar ran tenantiaid tai cymdeithasol yn Llys Hawliau Dynol Ewrop, a ddadleuodd yn llwyddiannus bod gan landlordiaid cymdeithasol ddyletswydd i ystyried a yw troi allan yn gymesur i'w hawydd i ddefnyddio'r eiddo ym mha bynnag fodd sy'n briodol.

Yn ogystal rydym wedi cyflawni wyth ymchwiliad ac asesiad statudol a chwblhau 59 achos cyflafareddu, gyda dros 86 y cant wedi eu datrys, y rhan fwyaf o fewn wyth wythnos ac yn arwain at setliadau i gyfanswm o dros £250,000.

- O flaen llaw i waith y llywodraeth i ddiwygio cyrff cyhoeddus anadrannol, fe gychwynnom ein rhaglen ddiwygio ein hunain i newid y Comisiwn yn sylfaenol a chymryd ambell gam gyntaf defnyddiol. Yn y blynyddoedd i ddod, bydd y sefydliad yn canolbwyntio mwy ar ei rôl reoleiddiol mewn tri maes:
  - hyrwyddwr a arweinir gan dystiolaeth
  - rheolydd effeithiol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, ac
  - arweinydd arbenigol.

Ymysg y gweithredoedd a gymerwyd i ddiwygio'r sefydliad hyd yn hyn mae:

- Lleihau niferoedd staff o 635 ar ddechrau'r Comisiwn, i'r swm presennol o 437 ar 31 Mawrth 2011.
- Lleihau 18 o eiddo a etifeddwyd i saith.
- Cryfhau rheoliadau ariannol a gwella cydymffurfiad â gweithdrefnau caffael a rheolaeth ariannol yn sylweddol.
- Lleihau costau'r Bwrdd o 43 y cant.

### 3. Defnydd gorau o adnoddau

Mae rhaglen ddiwygio'r Comisiwn wedi cyflwyno ffocws llawer mwy llym ar werth am arian. Mae ein cynllun busnes yn canolbwyntio ar lai o weithgareddau ond sydd â llawer mwy o effaith. Bydd hyn yn gwneud y sefydliad yn fwy cost effeithiol ac yn gwneud gwell defnydd o'n hadnoddau gostyngedig. I gyflawni hyn, rydym wedi lleihau'n rhaglen waith o hyd at 30 y cant.

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau trwy:

- **Defnyddio prawf ffurfiol i sicrhau bod ein gwaith i gyd yn pasio isafswm trothwy o fudd i'r cyhoedd:** ac i arddangos bod ein proses gwneud penderfyniadau yn wrthrychol a thryloyw i'r rhai sy'n cael eu rheoleiddio ac i'r cyhoedd.
- **Canolbwyntio ar ein hunigrywiaeth:** gweithredu dim ond ble fo'r Comisiwn mewn safle unigryw i ysgogi newid mewn ymddygiad trwy wneud defnydd cymesur o'n grymoedd a liferi rheoleiddiol.
- **Adolygu cynnydd a chydymffurfiad:** monitro a gorfodi cydymffurfiad cyrff cyhoeddus â'u dyletswyddau cydraddoldeb, a monitro cydymffurfiad y llywodraeth â'i rwymedigaethau cyfamed rhyngwladol, adrodd ar ein casgliadau i'r Cenhedloedd Unedig.
- **Ategu cynlluniau eraill:** er enghraifft, mae'r Swyddfa Gartref yn arwain strategaeth trawslywdoraethol ar drais yn erbyn menywod a merched y bydd y Comisiwn yn ei ystyried pan gyhoeddir cynlluniau manwl. Byddwn hefyd yn cynhyrchu canllaw i gefnogi cytundeb adrodd tâl gwirfoddol y GEO gyda busnes; a chynghori'r Comisiwn annibynnol ar Fesur Hawliau.
- **Gweithio ar y cyd:** megis rheoleiddio ar y cyd gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal ac Ofsted i ysgogi gwelliannau yn y sectorau gofal cymdeithasol ac addysg ac i gefnogi a chynghori'r Comisiynydd Plant parthed hawliau plant.

- **Grymuso eraill:** darparu'r sector wirfoddol ac unigolion â'r wybodaeth ac arfau i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus tecach, gwell iddynt eu hunain.

#### 4. Rhaglenni gwaith arfaethedig

Mae rhaglenni gwaith ar gyfer y flwyddyn wedi eu pennu gan ddadansoddiad o'r hinsawdd economaidd a chymdeithasol yn ogystal â blaenoriaethau a nodwyd yn yr Adolygiad Tair Blynedd. O'r dadansoddiad hwn mae'n amlwg y dylem ganolbwyntio ar y meysydd canlynol o waith:

- **gwneud y Ddeddf Cydraddoldeb yn haws i'w chofleidio** i gyflogwyr a darparwyr gwasanaeth: hybu hyder, dealltwriaeth a chydymffurfiaeth
- **gwella deilliannau cydraddoldeb a hawliau dynol** trwy helpu unigolion a chodi safonau sefydliadol
- **hyrwyddo hawliau dynol**
- **adeiladu'r sylfaen dystiolaeth** ar gyfer rheoleiddio effeithiol
- **adferiad teg a chyfartal**, a
- **diwygio'r Comisiwn** i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Mae yna hefyd gynlluniau gwaith blaenoriaeth ar gyfer y swyddogaethau rheolaeth a chyfathrebu corfforaethol. Yn ogystal, mae rhaglenni wedi eu datblygu yng Nghymru a'r Alban sy'n adlewyrchu cynllun cyffredinol y Comisiwn yn ogystal â chynnwys gwaith sy'n benodol i'r ddwy wlad, gan ystyried materion datganoledig a gwahanol hinsoddau economaidd a gwleidyddol. Mae yna hefyd raglen a gefnogir gan ein Pwyllgor Anabledd.

Gellir dod o hyd i fanylion llawn y rhaglen waith yn Atodiad 1 a rhoddir crynodeb o'r uchafbwyntiau isod gan groes gyfeirio at ganiatáu llywio hwylus.

***Gwneud y Ddeddf Cydraddoldeb yn haws i'w chofleidio i gyflogwyr a darparwyr gwasanaeth: hybu hyder, dealltwriaeth a chydymffurfiaeth***

Yn 2011/12 byddwn yn:

- **Cefnogi cyrff cyhoeddus i ddiogelu a hyrwyddo cydraddoldeb fel cyflogwyr a thrwy wasanaethau maent yn cyflawni trwy (Cyf S001, S016 ac S021):**
  - ddarparu Codau Ymarfer cryno, hawdd i'w dilyn

- canllaw ymarferol mewn Cymraeg Clir, yn defnyddio enghreifftiau, i gyflogwyr a darparwyr gwasanaeth y sector cyhoeddus, a
  - ein hymateb i adolygiad polisi'r llywodraeth ar y ddyletswydd cydraddoldeb sector cyhoedd yn Lloegr.
- **cefnogi busnesau, yn arbennig busnesau bychain, i greu gweithfannau tecach, mwy cynhwysol (Cyf E001, E004 a E005):**
    - trwy ddarparu canllaw ac enghreifftiau yn canolbwyntio ar fusnesau, eu cynghorwyr a chynrychiolwyr, a
    - Trwy raglen o ddigwyddiadau i adeiladu hyder i BBaChau.
- **grymuso'r sector gwirfoddol ac unigolion i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig urddas, dewis a gwerth am arian (Cyf S1.8 a S1.9):**
    - trwy ymgyrch hyrwyddo i dargedu unigolion a'r sector gwirfoddol, a
    - gyda chyrhaeddiad cynulleidfa darged o 2,000,000.
- **gwerthuso effaith y Ddeddf a'n canllaw (Cyf S1.4, S1.6 ac S1.7) trwy:**
    - ymuno â'r gwerthusiad o effeithiolrwydd ac ymwybyddiaeth o'r Ddeddf gyda Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth (GEO)
    - gwerthuso effeithiolrwydd Codau Ymarfer a chanllaw anstatudol a gynhyrchwyd gan y Comisiwn, a
    - sefydlu llinell sylfaen bresennol cydymffurfiad awdurdodau cyhoeddus gyda'r ddyletswydd cydraddoldeb.

***Gwella deilliannau cydraddoldeb a hawliau dynol trwy helpu unigolion a chodi safonau sefydliadol***

Yn 2011/12 byddwn yn:

- **cynyddu cyfradd llwyddiant defnydd o'n grymoedd cyfreithiol i ddiogelu hawliau unigolion (Cyf S002, S017, S022) trwy:**
  - cyflawni achosion newydd (yn targedu cyfradd llwyddiant o 70 y cant) sy'n egluro a diffinio dehongliad presennol o'r gyfraith, a
  - cynyddu ymwybyddiaeth o achosion prawf, gan gyflawni swm ac ansawdd uchel o sylw yn y wasg iddynt.

- **cwblhau ymholiadau ac ymchwiliadau presennol (Cyf S003 i S005, S018 ac S019):**
  - Cwblhau a mynd ar drywydd ein hymholiad i aflonyddu ar bobl anabl.
  - Cwblhau a mynd ar drywydd ein hymchwiliad i hawliau dynol pobl hŷn yn derbyn gofal yn eu cartref.
  - Cwblhau a mynd ar drywydd ein hymchwiliad i fasnachu mewn pobl yn yr Alban.
  - Mynd ar drywydd ein hymchwiliadau cynharach i wasanaethau ariannol, adeiladu a'r diwydiannau prosesu cig a dofednod ar y cyd â phartïon allweddol ym mhob sector.

### ***Hyrwyddo hawliau dynol***

Yn 2011/12 byddwn yn:

- **hyrwyddo gwerth ymarferol y Ddeddf Hawliau Dynol (Cyf S007, S008, S014 ac S023):**
  - Datblygu a gweithredu cynllun dylanwadu a chyfathrebu strategol i helpu symud naws mynegiant cyhoeddus ar hawliau dynol.
  - Ymgysylltu gydag a hysbysu'r drafodaeth ynglŷn â Mesur Hawliau.
  - Cynyddu ymwybyddiaeth o hawliau dynol gan bobl a chymunedau sydd wedi colli eu grym oherwydd tloedi fel modd o herio neu newid eu sefyllfa.
- **gwella cyflawniad gwasanaeth cyhoeddus (Cyf S011):**
  - Lansio crynhoad ar-lein o ganllaw hawliau dynol i awdurdodau cyhoeddus.
  - Datblygu arf gwirio iechyd hawliau dynol i awdurdodau cyhoeddus.
- **cyfrannu tystiolaeth i osod safonau hawliau dynol yn ddomestig ac yn rhyngwladol (Cyf S009 i S011, S023):**
  - Adrodd i'r Cenhedloedd Unedig ar gydymffurfriad y Deyrnas Unedig gyda rhwymedigaethau cyfamod hawliau dynol rhyngwladol ar ryw, anabled, hil ac artaith.
  - Cyfrannu i Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol yr Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol.
  - Cadeirio gweithgor y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl gydag anabledau a gwneud cais am arweinyddiaeth Grŵp Ewrop y Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol.

- **darparu cyngor awdurdodol ar hawliau dynol (Cyf S011 i S013):**
  - Canllaw, arweinyfrau a hyfforddiant i'r sector gwirfoddol, yn adeiladu eu gallu i ddal cyflenwyr gwasanaethau cyhoeddus yn atebol.
  - Cwblhau deunydd cwrs dinasyddiaeth a hawliau dynol i ysgolion uwchradd.
  - Ymateb i newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth a pholisi UE ar gydraddoldeb a hawliau dynol.
  - Archwilio a datblygu cynigion ar gyfer gweithredu rheoleiddiol ym meysydd rheoli protest, preifatrwydd a gwrthderfysgaeth.

***Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rheoleiddio effeithiol***

Yn 2011/12 byddwn yn:

- **adeiladu a chynnal canolfan soffistigedig o ddealltwriaeth ar gydraddoldeb a hawliau dynol (Cyf R004, R005 a R011):**
  - Creu swyddogaeth deallusrwydd integredig newydd.
  - Cwblhau a chynnal ein fframweithiau mesur ar gyfer cydraddoldeb, hawliau dynol a chysylltiadau da.
  - Cyhoeddi'r adolygiad hawliau dynol cyntaf.
  - Cwmpasu adolygiad cysylltiadau da 2012.
  - Dilyn ymlaen o a dosbarthu Adolygiad Tair Blynedd 2010 ar gydraddoldeb.
- **cynyddu tryloywder a gwrthrychedd ein proses reoleiddio (Cyf R002, R004 ac R006, R007 ac R009):**
  - Cyflwyno uned penderfyniadau rheoleiddio.
  - Datblygu a chyflwyno gwerthusiad ac asesiad effaith o ymyriadau rheoliadol.
  - Cyflwyno defnydd o ddadansoddiad cost a budd i hysbysu penderfyniadau rheoleiddio.
  - Sicrhau trosiant effeithiol i fframwaith deddfwriaethol y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus newydd yng nghydestun rôl reoleiddiol y Comisiwn.

**Adferiad teg a chyfartal**

Yn 2011/12 byddwn yn:

- **Deall effaith penderfyniadau gwariant cyhoeddus a sicrhau bod eu heffeithiau wedi eu lledaenu'n deg ar draws cymdeithas (Cyf R001, R008, ac R012):**
  - Cwblhau ein hasesiad S31 o Drysorlys EM.
  - Rhannu dysgu o'r asesiad S31 gyda llywodraeth.
- **monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu dysgu i sicrhau cynnydd ar gydraddoldeb mewn modd arloesol (Cyf R002):**
  - Monitro ac asesu cydymffurfiad cyrff cyhoeddus gyda'r ddyletswydd cydraddoldeb newydd a'r cynnydd a wnânt.
- **sefydlu partneriaethau gyda rheolyddion ac arolygiaethau i fonitro a chynyddu gweithrediad y sector cyhoeddus o'r ddyletswydd cydraddoldeb (Cyf R003, R9.4 ac R12.4):**
  - Arolwg o weithrediad parhaus o'n Memorandwm Cydddealltwriaeth gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal.
  - Partneriaeth gyda Phrif Arolygydd Asiantaeth Ffiniau'r DU.
  - Cydraddoldeb a hawliau dynol wedi ei integreiddio yn y fframwaith archwiliad Ofsted newydd.
- **meithrin hyder cyflogwyr, yn arbennig busnesau bychain, mewn creu gweithfannau teg a chynhwysol (Cyf E001, E003 ac E005):**
  - Datblygu'r achos busnes dros gydraddoldeb a hawliau dynol, gan weithio gyda chyrff diwydiant, yn cynnwys Conffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI), FSB, IoD, BCC a'r Ddinas.
  - Datblygu safonau a meincnodau ar y cyd â phartneriaid sector cyhoeddus i alluogi sefydliadau a sectorau busnes i siartio eu cynnydd tuag at fewnblannu cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn eu modd o wneud busnes.
  - Ymgysylltu â chyrff cynrychiadol a rheoleiddio proffesiynol i ysgogi'r sector preifat i ddelio â rhwystrau i amrywiaeth yn eu proffesiwn.

- **Ileihau'r bwllch tâl a threchu rhwystrau i'r gweithlu ar gyfer ystod o grwpiau, gan wneud cynnydd wrth i'n heconomi dyfu (Cyf E002 ac E004):**
  - Datblygu a hyrwyddo canllaw i gefnogi cytundeb y llywodraeth gyda busnes am ymagwedd wirfoddol i adrodd data ynglŷn â chyflog a graddio dynion a menywod.
  - Cyhoeddi ymchwil i ddeall ysgogyddion bylchau cyflog cyson ar gyfer grwpiau ethnig a chrefyddol penodol, gan gyhoeddi ein casgliadau a chydweithio gyda llywodraeth a chyflogwyr i leihau'r bylchau hyn.

***Diwygio'r Comisiwn i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon (Cyf F001 i F007)***

Yn 2011/12 byddwn yn:

- Ymateb i ymgynghoriad y llywodraeth ar ein grymoedd a dyletswyddau ac ar ddyfodol rhaglenni grantiau llinell gymorth.
- Sefydlu ac ymgynghori ag ystod eang o bartneriaid ar ein gweledigaeth newydd ar gyfer dyfodol y Comisiwn, cyhoeddi strategaeth ddrafft ym Medi 2011 a datblygu a chyhoeddi cynllun strategol cymhellol ar gyfer 2012-15.
- Datblygu a gweithredu cynllun, strwythur llywodraethu a model gweithredu sefydliadol newydd i gyflawni gweledigaeth 2015 a chynllun strategol newydd.

## **5 Yr Alban, Cymru a rhaglenni gwaith y Pwyllgor Anabledd**

Rydym wedi datblygu rhaglenni yng Nghymru a'r Alban ac ar gyfer ein Pwyllgor Anabledd sy'n cyd-fynd â chynllun busnes ledled Prydain ac sydd hefyd yn delio ag anghenion penodol y cyhoedd yng Nghymru a'r Alban a buddiannau pobl anabl. Yn benodol maent yn ystyried gwahanol ymagweddau gweinyddiaethau'r llywodraeth yn y tair gwlad a'r gwahanol rymoedd a chylchoedd gwaith sydd ganddynt ar gydraddoldeb a hawliau dynol. Disgrifir y rhaglenni gwaith llawn ar gyfer Cymru a'r Alban yn S015, S016 i S023, R008 i R013, E004 i E005 ac F006 i F007.

## **6 Cyfathrebu a rheolaeth gorfforaethol (Cyf C001 i C003 ac CM01)**

Yn 2011/12 byddwn yn:

- gweithredu enw da cyfnerthedig a strategaethau ymgysylltu â rhanddeiliaid

- gwella ein darpariaeth gwasanaethau corfforaethol, a
- rheoli newid yn effeithiol.

## 7. Cyflawni'r cynllun

Mae natur cylch gorchwyl y Comisiwn yn un ble gall fod angen ymateb i amgylchiadau newidiol wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Os bydd gweithgaredd blaenoriaeth uchel newydd yn codi, bydd hyn yn cymryd lle gweithgaredd arall, blaenoriaeth is. Wrth gymeradwyo'r cynllun busnes, mae pob grŵp o gyfarwyddwyr wedi cytuno i gyfres o fesurau ac elfennau allweddol i'w cyflawni fydd yn rhan o'u hamcanion personol.

## 8. Egwyddorion rheoleiddio

Mae'r Comisiwn wedi ei rwymo gan God Ymarfer Hampton i Reolyddion, sy'n amlinellu pum egwyddor o reoleiddio da: cyfranoled, atebolrwydd, cysondeb, tryloywder a thargedig.

Cyflwynir ein hegwyddorion rheoleiddio isod.

- Bydd y Comisiwn yn ceisio arwain dealltwriaeth gymdeithasol o heriau newydd mewn cydraddoldeb a hawliau dynol. Rhan bwysig o hyn yw sicrhau ei fod yn deall yn llawn yr heriau mae sefydliad yn wynebu wrth fewnosod cydraddoldeb a hawliau dynol yn eu gweithgareddau.
- Mae'r Comisiwn yn ymroddedig i fod yn agored a thryloyw yn ei waith rheoleiddio. Felly bydd yn cyhoeddi cynlluniau a blaenoriaethau pob blwyddyn i sicrhau bod gan randdeiliaid syniad clir o'i raglen waith. Bydd hefyd yn adrodd yn ôl ar sut mae wedi cyflawni ei amcanion.
- Gwaith y Comisiwn yw helpu sefydliadau ac unigolion i gydymffurfio â'r gyfraith ac i ddilyn y safon uchaf o ymarfer. Mae ganddo ystod o arfau i helpu pobl i wneud hyn a bydd yn eu defnyddio yn ddibynol ar yr heriau maent yn wynebu. Mae'r arfau hyn yn cynnwys grymoedd gorfodi a chyfreitha a bydd yn eu defnyddio yn gymesur, yn gadarn, yn brydlon ac yn effeithiol pan fo angen.
- Bydd yn sicrhau bod ei weithredoedd i gyd yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw. Mae hyn yn cynnwys esbonio pam ein bod wedi dewis gweithredoedd penodol neu pam ein bod wedi penderfynu peidio cymryd rhan.
- Bydd yn defnyddio adnoddau yn y modd mwyaf effeithiol, effeithlon ac economaidd. Bydd adnoddau wedi eu targedu ble maent fwyaf tebygol o gael effaith a heb ddefnyddio mwy o rymoedd rheoleiddio neu adnoddau nag sydd angen.

- Bydd y Comisiwn yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau, sefydliadau a rheolyddion eraill. Fodd bynnag, mae ei annibyniaeth a grymoedd uniongyrchol yn bwysig a bydd yn cymryd gofal i beidio peryglu'r rhain.

## 9. Cyllideb a dyraniad adnoddau 2011/12

Cyfanswm cyllid y Comisiwn ar gyfer 2011/12 yw £48.9 miliwn, yn cynnwys cyllid adnoddau o £47.4 miliwn a chyllid cyfalaf o £1.5 miliwn. Mae hyn yn lleihad o 2010/11 o gyfanswm cyllid o £54.8 miliwn (£52.8 miliwn o gyllid adnoddau a £2 miliwn o gyfalaf).

Byddwn yn parhau gyda'r lleihad yn ein costau a gychwynnwyd yn y blynyddoedd diwethaf, yn benodol lleihad yn nifer staff (o 635 pan agorodd y Comisiwn ei ddrysau, i 250 neu lai erbyn 2015), symleiddio ein hystadau a lleihad parhaus yn ein costau cefnogaeth, wrth barhau i gyflawni ein rhaglen waith a gwasanaethau.

Mae ffigwr 1 isod yn sefydlu dyraniad y gyllideb.

### Ffigwr 1: Gwariant adnoddau 2011/12

	Gwariant 2010/11	Cyllideb 2011/12
Incwm	-£868,000	-£500,000
Treuliau staff	£26,000,000	£21,512,628
Rhaglenni gwaith strategol	£6,029,000	£4,989,043
Rhaglen grantiau	£7,749,000	£6,217,000
Cynllun VERS	£3,800,000	£4,996,329
Pwyllgorau Statudol	£400,000	£335,000
Costau eiddo a swyddfa	£5,078,000	£4,900,000
Costau eraill	£3,182,000	£3,300,000
Dibrisiant	£1,000,000	£1,150,000
Teithio a llety	£430,000	£500,000
<b>Cyfanswm</b>	<b>£52,800,000</b>	<b>£47,400,000</b>

Rhoddir ein tybiaethau cynllunio yn Atodiad 2.

## 10. Rheoli risg

Bydd y Comisiwn yn parhau i weithredu ei strategaeth rheoli risg, gan nodi risgiau strategol a rhaglen ar lefelau hŷn, yn ogystal â defnyddio rheolaeth prosiect a phrosiect i reoli risgiau i gyflawni busnes. Mae'r gofrestr risg strategol yn cael ei hanfon ymlaen at bob cyfarfod Bwrdd ac yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Rhagwelir y bydd natur 2011/12, fel blwyddyn drosiannol, yn arwain at lefelau uwch o risg a bydd angen mwy o weithredu lliniarol a rheoli i sicrhau y cyflawnir busnes allweddol.

- Byddwn yn nodi'n mesurau allweddol i'w cyflawni ac yn eu monitro a rheoli trwy gydol y flwyddyn.
- Byddwn hefyd yn rhoi'r gorau i gyflawni cyfran o weithgaredd a bennir nad yw'n allweddol, gan naill ai berswadio partneriaid i gynnwys y gwaith hwn yn eu cynlluniau busnes eu hunain, ei leihau'n raddol i ddim, neu roi'r gorau iddo.

## 11. Llywodraethu a rheoli perfformiad

Mae gwaith strategol a gweithredol y Comisiwn wedi ei oruchwylio a'i gyfarwyddo gan y Bwrdd sy'n cynnwys y cadeirydd, dirprwy gadeirydd a chomisiynwyr, gyda chefnogaeth strwythur pwyllgor.

Mae'r Bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd i adolygu adroddiadau ariannol a pherfformiad, ac i drafod materion polisi. Er lles datgeliad i'r cyhoedd, tryloywder a llywodraeth atebol, mae agendâu'r Bwrdd, papurau a chofnodion nad ydynt yn gyfrinachol ar gael ar wefan y Comisiwn.

Mae adrodd ar berfformiad a gwerthuso yn ganolog i sicrhau cyflawniad llwyddiannus deilliannau ein cynllun busnes. Adolygir perfformiad y Comisiwn yn erbyn ei gynllun yn rheolaidd gan ein tîm uwch reolwyr i reoli cyflawniad amcanion y cynllun busnes a sicrhau'n bod yn canolbwyntio ein hadnoddau ar ein blaenoriaethau. Mae hyn yn amodol i arolygiaeth gan y Pwyllgor Adnoddau a'r Bwrdd.

## 12. Gwerth am arian

Yn ystod 2010/11 rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gyflawni gwerth am arian a nodi a sylweddoli arbedion effeithlonrwydd ledled y Comisiwn, gan amsugno £7 miliwn o leihad mewn cyllid, ond yn parhau i gyflawni ein hallbynnau arfaethedig. Yn benodol rydym wedi:

- Meincnodi ein perfformiad yn erbyn sefydliadau cydraddoldeb a hawliau dynol eraill, cyrff cyhoeddus anadrannol a darparwyr gwasanaeth tebyg.
- Gweithredu strategaeth a fframwaith gaffael er mwyn sylweddoli arbedion effeithlonrwydd, gan ddefnyddio cytundebau fframwaith ble fo'n berthnasol.
- Dechrau gweithredu ein strategaeth ystadau i gyflawni symleiddiad o'n heiddo a lleihad parhaus yn ein sylfaen costau.

Yn 2011/12 rydym yn bwriadu cyflawni effeithlonrwydd pellach trwy leihad mewn staff a chyflwyno dulliau gwell o weithio. Bydd ein swyddogaethau cefnogaeth yn lleihau i adlewyrchu cefnogaeth llywodraeth i gymarebau craidd a byddwn yn ceisio manteisio ar gyfleoedd i rannu gwasanaethau a ddarperir trwy nawdd y Swyddfa Gartref.

### **13. Rheoli rhanddeiliaid**

Mae rheolaeth rhanddeiliaid effeithiol yn rhan bwysig o waith y Comisiwn. Mae strategaeth rhanddeiliaid newydd yn cael ei ddatblygu gan yr uwch dîm rheolwyr, yn seiliedig ar dystiolaeth o arolwg Ipsos Mori diweddar o'n rhanddeiliaid.

Bydd y gwaith hwn hefyd wedi ei gefnogi gan system Rheoli Perthynas Rhanddeiliaid, a fydd yn gwella cydlynid ein holl waith â rhanddeiliaid a fydd hefyd yn darparu cyswllt agos â'r swyddogaeth gwybodaeth newydd.

**Atodiad 1: Rhaglen waith yn 2011/12****Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio**

- S001 Gweithrediad y Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- S002 Gweithredu cyfreithiol strategol
- S003 Ymchwiliad Aflonyddu yn seiliedig ar Anabledd S16
- S004 Ymchwiliad i Ofal yn y Cartref S16
- S005 Dilyn ymlaen ar ymchwiliad
- S006 Polisi economaidd-gymdeithasol, deddfwriaeth, a mentrau llywodraeth
- S007 Creu naratifau newydd parthed hawliau dynol
- S008 Adolygiadau annibynnol i hawliau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru a Lloegr.
- S009 Gosod safonau hawliau dynol a dylanwadu ar ddatblygiad hawliau dynol yn rhyngwladol
- S010 Ymgysylltiad â grŵp Ewrop; y rhwydwaith o Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol Ewropeaidd
- S011 Gosod safonau hawliau dynol ym Mhrydain
- S012 Hybu amddiffyniad o hawliau sifil a gwleidyddol
- S013 Dylanwadu ar a hysbysu newid mewn deddfwriaeth (Undeb Ewropeaidd)
- S014 Defnydd o ymagwedd seiliedig ar hawliau dynol i'r rhai mewn tlodi i newid polisi
- S015 Datblygu'r Rhaglen Anabledd a chefnogaeth i'r Pwyllgor Anabledd
- S016 Codau a Chanllaw (Yr Alban)
- S017 Cyfreithia strategol (Yr Alban)
- S018 Ymchwiliad Aflonyddu yn seiliedig ar Anabledd S16 (Yr Alban)
- S019 Ymchwiliad Masnachu mewn Pobl (Yr Alban)
- S020 Monitro Cyfamod Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (Yr Alban)
- S021 Codau a chanllaw (Cymru)
- S022 Gweithredu cyfreithiol strategol (Cymru)
- S023 Diogelu ac amddiffyn hawliau dynol yng Nghymru

**Rheoleiddio seiliedig ar dystiolaeth**

- R001 Deall effaith penderfyniadau gwariant cyhoeddus a sicrhau y lledaenir eu heffeithiau'n deg

- R002 Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus
- R003 Rheoleiddio cydweithredol targedig
- R004 Fframweithiau mesur a gwerthuso
- R005 Cyhoeddi a dosbarthu arolygon statudol
- R006 Datblygu arfau a safonau rheoleiddio
- R007 Gosod safonau
- R008 Cyfri'r Gost (Yr Alban)
- R009 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Yr Alban)
- R010 Arolwg agweddau'r Alban
- R011 Adeiladu ar ein swyddogaeth gwybodaeth (Yr Alban)
- R012 Deall effaith penderfyniadau gwariant cyhoeddus a sicrhau y lledaenir eu heffeithiau'n deg (Cymru)
- R013 Byw'n Annibynnol (Yr Alban)

### **Cyflogaeth**

- E001 I sicrhau adferiad teg, cynhwysol a chynaliadwy; ymgysylltiad â'r sector cyhoeddus
- E002 Lleihau Bylchau Tâl
- E003 Gweithio'n Well
- E004 Cyflogaeth (Yr Alban)
- E005 Cyflogaeth (Cymru)

### **Diwygio**

- F001 Cynllunio, datblygu a pharatoi i weithredu Cynllun Strategol 2012-15 y Comisiwn
- F002 Swyddogaethau, grymoedd a dyletswyddau'r Comisiwn
- F003 Cyflawni'r Rhaglen Ddiwygio
- F004 Datblygu'r Gyfarwyddfa Reoleiddio
- F005 Rhannu gwasanaethau cefnogaeth
- F006 Rhaglen ddiwygio (Yr Alban)
- F007 Rhaglen ddiwygio (Cymru)

**Cyfathrebu**

C001 Gweithredu strategaeth rheoli enw da

C002 Gweithredu strategaeth rhanddeiliaid

C003 Cyfathrebu mewnol

**Rheolaeth Gorfforaethol**

CM01 Darparu gwasanaethau corfforaethol a rhaglen waith rheoli newid

<b>Categori/Thema</b>	Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio				
<b>Gweithgaredd: Cyf: S001</b>	Gweithrediad y Ddeddf Cydraddoldeb 2010				Perchennog: Rheoleiddio GD
<b>Pwrpas:</b>	Cychwyn effeithiol o ddarpariaethau'r Ddeddf i gyflawni ei fanteision datganedig				
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S1.1	Ymateb i adolygiad polisi'r llywodraeth ar y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn Lloegr	Ch1	Dealltwriaeth glir o effaith y newidiadau arfaethedig  Hysbysu llywodraeth o effaith newidiadau i ddyletswydd benodol	Cyflwyno ymateb erbyn 21 Ebrill 2011  Ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid i hysbysu o'u hymateb i'r adolygiad polisi Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn cynnwys EDF, sefydliadau cysgodol cyrff sector cyhoeddus a rheolyddion sector cyhoeddus	Rheoleiddio GD
S1.2	Adolygu ac adolygiad posibl i ganllaw a gyhoeddwyd yn flaenorol i Loegr	Ch1 a hwyrach	Canllaw clir i awdurdodau cyhoeddus i gynorthwyo yn eu cydymffurfiad â'r Ddyletswydd Sector Cyhoeddus	Adolygiad wedi ei gwblhau Ch1  Adolygiadau yn dilyn safle terfynol y llywodraeth ar y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus	Cyfarwyddwr Polisi Sector Cyhoeddus
S1.3	Cyfres o Godau Ymarfer a chanllaw anstatudol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban.  [Yn unol â chytundeb gyda GEO yn rhan o gynllunio busnes 2010/11.] Bydd dethol cynnyrch yn cael ei bennu gan yr angen i amnewid canllaw statudol ac anstatudol presennol a gynhyrchwyd yn flaenorol gan y comisiynau etifeddiaeth gyda chodau a chanllaw newydd a ysgogwyd gan harmoneiddio deddfwriaeth flaenorol yn y Ddeddf Cydraddoldeb.	I'w Drefnu (dibynnol ar bolisi ac amserlen llywodraeth)	Dealltwriaeth gynyddol o ddarpariaethau'r Ddeddf a hyder yn eu cymhwysiad	Rhestr cynnyrch wedi ei gyflenwi ar amser, i gostau a safonau ansawdd a sefydlwyd yng nghynllun y rhaglen a chynllun ansawdd cysylltiedig.	Cyfarwyddwyr Polisi Cyfreithiol a Chyfarwyddwr Polisi Sector Cyhoeddus

Cyf	Elfen cyflawni	Amserlen	Cyflawniad	Mesur	Perchennog
S1.4	Adrodd ar werthusiad o effeithiolrwydd y Codau Ymarfer a chanllaw	Yn unol â pholisi ac amserlen llywodraeth	Sylfaen tystiolaeth wrthrychol o effeithiolrwydd ein deunyddiau	Dadansoddiad o ddefnydd trwy arolygon ac ymweliadau i'r wefan.  Asesiad meintiol o ddefnyddioldeb trwy waith gyda ffocws ar ddefnyddiwr wedi ei dargedu at benderfynyddion	Cyfarwyddwr Rhagwelediad a Chyfathrebu GD
S1.5	Cynnig ar gyfer dyfodol Codau Ymarfer a chanllaw	Yn unol â pholisi ac amserlen llywodraeth	Cytuno ar ymagwedd i ddarpariaeth Codau Ymarfer a chanllaw yn y dyfodol	Cyflawni penderfyniad y Bwrdd gydag argymhelliad gan y Pwyllgor Rheoleiddio	Rheoleiddio GD
S1.6	Asesiad llinell sylfaenol o gydymffurfiad presennol awdurdodau cyhoeddus gyda'r PSD	Ch1	Safle hysbys i olrhain cynnydd a thueddiadau	Lefel cwblhau llinell sylfaen wedi ei bennu erbyn diwedd Mehefin	Cyfarwyddwyr Rhagwelediad ac Ymchwil
S1.7	Gwerthusiad o ddarpariaethau allweddol Deddf Cydraddoldeb - Monitro dibenion a nodwyd ac a gytunwyd gan y Pwyllgor Rheoleiddio - Asesu trwy brosiect gwerthuso	Ch1  Ch2/3	Nodi meysydd risg ar gyflawniad Deddf Cydraddoldeb.  Dadansoddiad o ba ddarpariaethau allweddol o'r Ddeddf Cydraddoldeb sy'n cyflawni mewn sectorau a gytunwyd sy'n cael eu monitro.	Argaeledd data cyhoeddedig.	Cyfarwyddwr Polisi Sector Cyhoeddus  Cyfarwyddwr Polisi Sector Cyhoeddus a Rhagwelediad
S1.8	Rhaglen hyrwyddo i dargedu unigolion a'r sector preifat	Ch1 i 4	Sector gwirfoddol wedi grymuso ac unigolion i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig urddas, dewis a gwerth am arian	Cyrraedd cynulleidfa darged o ddwy filiwn; Cyfnewid gwybodaeth trwy bartneriaeth gydweithredol gyda thrydydd sector ac eraill	Cyfathrebu GD a Chyfarwyddwr Grŵp Rheoleiddio
S1.9	Trosglwyddo arbenigedd	Parhaus	Cynyddu gallu, ymwybyddiaeth ac arbenigedd yn y Sector Gwirfoddol a Chymunedol ac Undebau Llafur, parthed cydraddoldeb a hawliau dynol, darparu gwell mynediad i gyfiawnder i unigolion	O leiaf 500 o gynghorwyr a chynrychiolwyr Undebau Llafur wedi eu hyfforddi ar y Ddeddf Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  Isafswm o wyth arddangosfa mewn cynadleddau cenedlaethol mawr yn y sectorau gwirfoddol, Undebau Llafur a phreifat	Cyfathrebu GD a Rheoleiddio GD

<b>Categori/Thema:</b>		Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio			
<b>Gweithgaredd: Cyf: S002</b>		Gweithredu cyfreithiol strategol			Perchennog: GD Cyfreithiol
<b>Pwrpas:</b>		I egluro a chryfhau dehongliad cyfreithiol a barnwrol o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol			
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S2.1	Casgliad effeithiol o achosion prawf arwyddocaol, gan roi esboniad o effaith achosion o'r fath a'i gyhoeddi	Parhaus	Sicrwydd cyfreithiol a barnwrol cynyddol yn arwain at leihau'r tebygolrwydd o gyfreitha a newid ymddygiadol ehangach  Cwmpas deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol wedi cryfhau trwy ddarparu dehongliad cliriach  Gosod cynsail i achosion tebyg lwyddo yn y dyfodol  Gwella parch tuag at a dealltwriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol	Cyflawni gweithredoedd cyfreithiol newydd gyda chyfradd lwyddiant o 70 y cant sy'n egluro a diffinio dehongliad presennol o'r gyfraith.	Cyfarwyddwr Gwaith Achos y Chyfreitha a Chyfarwyddwr, Gorfodi Cyfreithiol
S2.2	Datblygu a gweithredu cynllun dilynol ar gyfer dyfarniadau llwyddiannus	Parhaus	Fel uchod	Fel uchod	

<b>Categori/Thema:</b>	Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio				
<b>Gweithgaredd:</b> <b>Cyf: S003</b>	Ymchwiliad aflonyddu yn seiliedig ar anabledd S16				<b>Perchennog:</b> Rheoleiddio GD
<b>Pwrpas:</b>	Lansiad a dilyniant effeithiol o adroddiad yr ymchwiliad i sicrhau ei fod yn ysgogydd i newid				
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S3.1	Cwblhau ymchwiliad s16 i aflonyddu yn ymwneud ag anabledd. Cyhoeddi adroddiad	Ch1/2	Gwell dealltwriaeth o ehangder ac effaith aflonyddu yn seiliedig ar anabledd a gweithredoedd y dylai awdurdodau cyhoeddus, gweithredwyr trafndiaeth gyhoeddus a'r cyhoedd gyflawni i atal a diddymu aflonyddu  Datblygu cynllun dilynol	Lansio a dosbarthu adroddiad o gasgliadau ac argymhellion, ac ymchwil cysylltiedig.  Datblygu llinell sylfaen ddibynadwy o achosion o aflonyddu.  Cynnydd mewn adrodd a lleihad yn y bwch rhwng achosion o aflonyddu ac adrodd ar aflonyddu (yn erbyn ffigyrau a adroddwyd, sydd eisoes â chafeatau parthed dibynadwyedd)  Adrodd i SMT a'r Pwyllgor Anabledd erbyn Ch2	Cyfarwyddwr Rhaglen Anabledd
S3.2	Dilyniant Ymchwiliad Aflonyddu Anabledd	Ch3	Gweithredu argymhellion Ymchwiliad Aflonyddu Anabledd	Tystiolaeth o fentrau cydweithredol gan awdurdodau cyhoeddus	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Cymru

<b>Categori/Thema:</b>		Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio			
<b>Gweithgaredd:</b> <b>Cyf: S004</b>		Ymchwiliad s16 i ofal yn y cartref ar gyfer pobl hŷn			<b>Perchennog:</b> Rheoleiddio GD
<b>Pwrpas:</b>		I wella'r ddarpariaeth o ofal i bobl hŷn sydd angen neu'n derbyn gofal yn eu cartref			
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S4.1	Cwblhau ymchwiliad s16 i ofal yn y cartref ar gyfer pobl hŷn	Ch4	<p>Dealltwriaeth gynyddol o ehangder ac effaith risgiau i hawliau dynol mewn gofal cymdeithasol i bobl hŷn; natur, difrifoldeb, ac ehangder y risgiau hyn yn arbennig yng nghyd-destun system ofal sy'n gynyddol bersonol ac wedi ei ysgogi gan y farchnad.</p> <p>Trefnu cyfres o ddigwyddiadau i ddsbarthu casgliadau ac argymhellion ac annof arfer da ymysg y sector yn gyffredinol.</p> <p>Datblygu cynllun dilynol.</p>	<p>Lansio a dosbarthu adroddiad o gasgliadau ac argymhellion, ac ymchwil cysylltiedig.</p> <p>Datblygu llinell sylfaen ddibynadwy o wybodaeth.</p> <p>Dyfynnu casgliadau ac argymhellion mewn dogfennau llywodraeth a pholisi gofal cymdeithasol dylanwadol eraill.</p> <p>Adrodd i SMT a'r Pwyllgor Rheoleiddio erbyn Ch4</p>	Cyfarwyddwr Gorfodi

<b>Categori/Thema:</b>		Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio			
<b>Gweithgaredd:</b> <b>Cyf: S005</b>		Dilyniant i ymchwiliadau blaenorol y Comisiwn			Perchennog: Rheoleiddio GD
<b>Pwrpas:</b>		Sicrhau bod y sylw a gweithredoedd dilynol yn arwain at welliant priodol yn y diwydiannau a sectorau perthnasol			
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S5.1	Adolygiad ffurfiol o gynnydd ar weithrediad argymhellion yr Ymchwiliad Gwasanaethau Ariannol.	Ch1	Yr holl weithredoedd a argymhellir wedi eu cwblhau ac yn parhau.  Asesiad effaith o adolygiad a gweithredoedd pellach angenrheidiol.  Gwell arferion yn y sector Gwasanaethau Ariannol	Ail arolygu'r diwydiant i fesur gwelliant yn erbyn y llinell sylfaen a sefydlwyd trwy gasgliadau'r ymchwiliad  Adrodd i SMT erbyn Ch1	Cyfarwyddwr Polisi Sector Preifat
S5.2	Adolygiad ffurfiol o gynnydd ar weithrediad argymhellion ymchwiliad y diwydiant adeiladu	Ch1	Yr holl weithredoedd a argymhellir wedi eu cwblhau ac yn parhau  Asesiad effaith o adolygiad a gweithredoedd pellach angenrheidiol.  Gwella arferion yn y Diwydiant Adeiladu	Ail arolygu'r diwydiant i fesur gwelliant yn erbyn y llinell sylfaen a sefydlwyd trwy gasgliadau'r ymchwiliad  Adrodd i'r SMT erbyn Ch1	Cyfarwyddwr Polisi Sector Preifat
S5.3	Adolygiad ffurfiol o gynnydd ar weithrediad argymhellion ymchwiliad y sector prosesu cig a dofednod	Ch1	Yr holl weithredoedd a argymhellir wedi eu cwblhau ac yn parhau  Asesiad effaith o adolygiad a gweithredoedd pellach angenrheidiol.  Gwella arferion yn y Diwydiant Prosesu Cig a Dofednod	Ail arolygu'r diwydiant i fesur gwelliant yn erbyn y llinell sylfaen a sefydlwyd trwy gasgliadau'r ymchwiliad  Adrodd i SMT erbyn Ch3	Cyfarwyddwr Polisi Sector Preifat

<b>Categori/Thema:</b>		Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio			
<b>Gweithgaredd:</b> <b>Cyf: S006</b>		Polisi economaidd-gymdeithasol, deddfwriaeth, a mentrau llywodraeth			Perchennog: Rheoleiddio GD
<b>Pwrpas:</b>		I gynghori a dylanwadu ar lywodraeth ar ddatblygu deddfwriaeth			
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S6.1	I hysbys ar ddatblygiad y Mesur Diwygio Lles	Ch1-Ch3	Dylanwadu'n briodol ar y llywodraeth wrth lunio'r Ddeddf parthed yr effaith ar anabledd.	Adrodd i'r SMT a'r Pwyllgor Rheoleiddio yn Ch1 ar ymgysylltiad arfaethedig y Comisiwn	Cyfarwyddwyr Polisi Cyhoeddus a Phreifat
S6.2	Dilyniant terfynol i ymateb y Comisiwn i ddiddymiad y Cyngor Taliadau o'r cynllun cerdyn gwarantu sieciau a sieciau.	Ch1	Comisiwn yn cynghori'r Cyngor Taliadau ar fesurau hygyrch ac amgen i'r system sieciau	Rhoi cyngor i'r Cyngor Taliadau.	Cyfarwyddwr Rhaglen Anabledd

<b>Categori/Thema</b>		Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio			
<b>Gweithgaredd: Cyf: S007</b>		Creu naratifau newydd parthed hawliau dynol a hyrwyddo'r Ddeddf Hawliau Dynol			Perchennog: GD Cyfreithiol
<b>Pwrpas:</b>		I helpu symud cwrs trafodaeth gyhoeddus parthed hawliau dynol a'r Ddeddf Hawliau Dynol ac i lywio'r Comisiwn ar Fesur Hawliau tuag at adeiladu ar y Ddeddf Hawliau Dynol, heb wanhau amddiffyniad			
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S7.1	Datblygu a gweithredu cynllun dylanwadu a chyfathrebu strategol ar gyfer hawliau dynol a'r Ddeddf Hawliau Dynol	Ch1	Trafodaeth gyhoeddus fwy deallusol	Datblygu cynllun yn Ch1 ar gyfer yr SMT a Phwyllgor Rheoleiddio	Cyfarwyddwr Hawliau Dynol a Chyfathrebu GD

<b>Categori/Thema</b>	Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio				
<b>Gweithgaredd:</b> <b>Cyf: S008</b>	Adolygiadau Annibynnol i Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol yng Nghymru a Lloegr.				Perchennog: GD Cyfreithiol
<b>Pwrpas:</b>	I gael gwell dealltwriaeth o ddeinameg Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol er mwyn darparu mewnbwn gwybodus i'r Mesur Hawliau				
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S8.1	Mae'r Comisiwn yn cyfrannu i ddatblygiad Mesur Hawliau trwy ddarparu sylwadau a thystiolaeth lafar.	Adroddiad interim Ch3	Y Comisiwn Mesur Hawliau wedi ei hysbysu gan ac yn ystyried barn y Comisiwn ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol	Cyflwyno adroddiad amserol i'r Comisiwn Mesur Hawliau, o safbwynt cytunedig y Comisiwn	Cyfarwyddwr Polisi Cyfreithiol
S8.2	Adolygiad o dystiolaeth Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol presennol a noddi cynhadledd Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol	Ch1	Archwilio sut mae Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol wedi eu diogelu mewn awdurdodaethau eraill a'u perthnasedd i'r Deyrnas Unedig  Datblygu a gweithredu polisi gwybodus  Asesu i ba raddau mae'r Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol wedi eu diogelu yn ymarferol mewn gwahanol sectorau yng Nghymru a Lloegr	Ymchwil i'w gomisiynu yn 2011/12  Adrodd i SMT a'r Pwyllgor Rheoleiddio erbyn diwedd Ch2	Cyfarwyddwr Polisi Cyfreithiol

<b>Categori/Thema</b>	Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio				
<b>Gweithgaredd: Cyf: S009</b>	Gosod safonau hawliau dynol a dylanwadu ar ddatblygiad hawliau dynol yn rhyngwladol				Perchennog: GD Cyfreithiol
<b>Pwrpas:</b>	Gwella hawliau dynol trwy weithrediad cysondeb ledled ffiniau cenedlaethol parthed rhwymedigaethau Cyfamod Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig				
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S9.1	<p>Cyflwyno adroddiadau awdurdodol ar gydymffurfiad hawliau dynol y Deyrnas Unedig i'r Cenhedloedd Unedig.</p> <p>Argymhellion y Comisiwn wedi eu hadlewyrchu yn y sylwadau cloi ac argymhellion yr Arolwg Cyfnodol Cyffredinol.</p>	Dibynnol ar gynhyrchu adroddiad gan lywodraeth y Deyrnas Unedig	<p>Monitro cydymffurfiad y Deyrnas Unedig gyda'r pedwar cyfamod i'w archwilio, sef:</p> <p>Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod, Confensiwn yn erbyn Artaith, Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'r Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu ar Sail Hil.</p> <p>Cyflwyno adroddiad o'r OHCHR ar gyfer yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol,</p> <p>Lefel uchel o ymgysylltiad â rhanddeiliaid</p> <p>Safbwynt y Comisiwn (barnau, pryderon ac argymhellion) wedi ei adlewyrchu gan lywodraeth y Deyrnas Unedig a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig</p> <p>Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynhyrchu cynllun/cynllun gweithredu dilynol i ddelio â sylwadau cloi Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig.</p>	<p>Cyflawni i amserlen gytunedig Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig.</p> <p>Adroddiad ymchwil, trafodaethau bord gron a grwpiau ffocws wedi eu cyflawni o fewn yr amserlen gytunedig i fanyleb gytunedig</p> <p>Cynlluniau gwaith ar gyfer pob cyfamod i SMT erbyn diwedd Ch2</p>	Cyfarwyddwr Hawliau Dynol

<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S9.2	<b>Cerdyn Sgôr Cyfamod</b> Cynnal a chyhoeddi cerdyn sgôr monitro cyfamod yn dangos cydymffuriad y Deyrnas Unedig	Parhaus	Llywodraeth yn gwella ei berfformiad ar ei amcanion cyfamod	Adroddiadau rheolaidd ar fonitro cerdyn sgôr (i'w ddatblygu, o leiaf yn chwarterol)	Cyfarwyddwr Hawliau Dynol
S9.3	<b>Adolygiad Cynfodol Cyffredinol</b> Cynllun gweithredu ar Adolygiad Cynfodol Cyffredinol wedi datblygu a gweithredu	Ch3	Comisiynu gwaith ar Adolygiad Cynfodol Cyffredinol wedi cytuno a gweithredu  Ymgysylltu cynyddol EHRC a rhanddeiliaid yn yr Adolygiad Cynfodol Cyffredinol	Cynllun gweithredu i adrodd i'r SMT	Cyfarwyddwr Hawliau Dynol
S9.4	<b>Hyrwyddo Cyfamod Cyffredinol</b> Cynllun cyfathrebu i'w ddatblygu ledled gwaith y cyfamod	Parhaus	Gwell proffil i waith cyfamod y Comisiwn (i gynnwys gwaith cyfryngau a digwyddiadau/cyhoeddiadau posibl)	SMT i gymeradwyo strategaeth cyfathrebu erbyn Ch2	Cyfarwyddwr Hawliau Dynol

<b>Categori/Thema:</b>	Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio				
<b>Gweithgaredd:</b> <b>Cyf: S010</b>	Ymgysylltiad â grŵp Ewrop: Y Rhwydwaith o Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol Ewropeaidd				Perchennog: GD Cyfreithiol
<b>Pwrpas:</b>	I gryfhau grŵp Ewrop yn y Cenhedloedd Unedig; hybu sefyllfa'r Comisiwn adref				
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S10.1	Cymorth technegol ar gyfer datblygiad grŵp Ewrop	Parhaus	Cyllid ar gyfer ysgrifenyddiaeth grŵp Ewrop, sefydlu'r ysgrifenyddiaeth  Hybu gallu a dylanwad grŵp Ewrop.	Cymeradwyo ceisiadau cyllid, sefydlu ysgrifenyddiaeth fel endid cyfreithiol annibynnol  Mwy o sefydlogrwydd a dylanwad y Grŵp Ewropeaidd fel y gwelir mewn achosion o fwy o ddylanwad yn y Cenhedloedd Unedig.	Cyfarwyddwr Hawliau Dynol
S10.2	Etholiad grŵp Ewrop	Ch1	Ethol y Comisiwn fel Cadeirydd Ewrop	Comisiwn wedi ei ethol yn Gadeirydd	Cyfarwyddwr Hawliau Dynol
S10.3	Datblygu a gweithredu Strategaeth Cyllid / Cynllun gwaith	Ch2	Os etholir: i ddatblygu cynllun gwaith ar gyfer grŵp Ewrop, yn ogystal â helpu sefydlu ysgrifenyddiaeth barhaol (fel uchod)	Cymeradwyo a gweithredu cynllun gwaith grŵp Ewrop	Cyfarwyddwr Hawliau Dynol

<b>Categori/Thema:</b>	Ymarfer ein grymoedd statudol a chyfrifoldebau rheoleiddio				
<b>Gweithgaredd:</b> <b>Cyf: S011</b>	Gosod safonau hawliau dynol ym Mhrydain				Perchennog: GD Cyfreithiol
<b>Pwrpas:</b>	I atal troseddau hawliau dynol a sicrhau cynnydd blaengar ar fwynhad hawliau dynol gan bob rhan o'r gymuned				
<b>Cyf</b>	<b>Elfen cyflawni</b>	<b>Amserlen</b>	<b>Cyflawniad</b>	<b>Mesur</b>	<b>Perchennog</b>
S11.1	Datblygu canllaw'r Comisiwn ar hawliau dynol	Parhaus	Darparu cyngor awdurdodol ar hawliau dynol  Comisiwn wedi ei sefydlu fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol credadwy	Canllaw'r Comisiwn ar landlordiaid cymdeithasol wedi ei gyhoeddi Ch1  Adrodd i'r SMT ar gyfres arfaethedig o ganllaw ac arfau yn Ch1	Cyfarwyddwr Rhaglen Hawliau Dynol
S11.2	Lansio crynhoad ar-lein o ganllaw hawliau dynol i awdurdodau cyhoeddus	Ch1	Awdurdodau cyhoeddus, Sefydliadau Anllywodraethol ac eraill gydag un ffynhonnell ar gyfer holl ganllaw credadwy ar hawliau dynol	Mesur traffig y wefan a chyflawni arolwg defnyddwyr i fesur dehongliadau o ddefnyddioldeb	Cyfarwyddwr Rhaglen Hawliau Dynol
S11.3	Datblygu a pheilotio arf 'gwirio iechyd' hawliau dynol i awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau cymdeithas sifil i werthuso cydymffurfiad a pherfformiad hawliau dynol	Cynllun peilot Ch2  Peilotio o ddechrau Ch3  Gwerthusiad Ch4	Hyrwyddiad gwell o hawliau dynol trwy ddefnyddio ymagwedd hunan wirio a beichiau gweinyddol isel i ddefnyddwyr	Cyflwyno arf i SMT a'r Pwyllgor Rheoleiddio erbyn Ch2  Nifer sy'n defnyddio'r arf (mesur i'w wneud ar sail benodol i sector)  Gwerthuso peilot erbyn Ch4	Cyfarwyddwr Rhaglen Hawliau Dynol
S11.4	Datblygu fframwaith perfformiad cydraddoldeb a hawliau dynol i'r sector gwirfoddol	Parhaus	Sector gwirfoddol yn berchen ar fframwaith perfformiad cyffredinol ar gydraddoldeb a hawliau dynol	Datblygu fframwaith perfformiad erbyn Ch1  Gweithrediad cynllun i'r SMT erbyn Ch2	Cyfarwyddwr Rhaglen Hawliau Dynol

Cyf	Elfen cyflawni	Amserlen	Cyflawniad	Mesur	Perchennog
S11.5	Creu Datblygiad gwybodaeth, canllaw, arweinyfrau a hyfforddiant seiliedig ar sector partneriaeth Sector Gwirfoddol a Chymunedol i'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol ar hawliau dynol	Ch2-Ch4	Menter adeiladu cynhwysedd ledled y Sector Gwirfoddol a Chymunedol (VCS) mewn hawliau dynol	Sefydlu partneriaeth erbyn diwedd Ch2  Ansawdd ac ehangder cynnyrch a gweithgareddau	Cyfarwyddwr Rhaglen Hawliau Dynol
S11.6	Sefydlu rhwydwaith monitro hawliau dynol cenedlaethol	Parhaus	Adeiladu gallu, rhannu gwybodaeth a phartneriaeth reoleiddiol ymysg rheolyddion sector.  Hysbysu rheolyddion sector ac integreiddio hawliau dynol i'w fframweithiau	Adrodd i'r SMT ar sefydlu'r rhwydwaith Ch1  Adrodd o'r rhwydwaith a gynhyrchwyd Ch4  Strategaeth cyfathrebu a hawliau dynol VCS targedig erbyn Ch4	Cyfarwyddwr Rhaglen Hawliau Dynol
